**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: RE/303/2024

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

30 Hydref 2024

Annwyl Llywydd,

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Data (Defnydd a Mynediad) i Dŷ'r Arglwyddi ar 23 Hydref. Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod i chi am oedi posibl wrth osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil. Mae nifer o resymau dros hyn sy'n ymwneud yn bennaf â chymhlethdod a hyd y Bil, ynghyd â'r angen i ystyried y materion a wynebwyd ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol flaenorol, a oedd yn cynnwys darpariaethau tebyg i'r rhai yn y Bil Data (Defnydd a Mynediad) newydd.

Drwy'r Bil Data (Defnydd a Mynediad) mae Llywodraeth y DU yn ceisio '*harneisio pŵer enfawr data i wneud ein bywydau yn haws, yn iachach ac yn gyfoethocach'* a bydd yn '*darparu arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd gwerth tua £10 biliwn dros 10 mlynedd'*. Bydd ganddo dri amcan, sef*: 'harneisio pŵer data ar gyfer twf economaidd, cefnogi llywodraeth ddigidol fodern, a gwella bywydau pobl'*.

Mae hwn yn ddarn cymhleth o ddeddfwriaeth sy'n ymestyn ar draws nifer o feysydd polisi a phortffolios Gweinidogol Llywodraeth Cymru. Dangosir ehangder y Bil Data (Defnydd a Mynediad), sy'n cynnwys saith Rhan ac sy'n cwmpasu 262 o dudalennau o hyd, trwy enw hir y Bil, fel a ganlyn:

> *"A bill to make provision about access to customer data and business data; to make provision about services consisting of the use of information to ascertain and verify facts about individuals; to make provision about the recording and sharing, and keeping of registers, of information relating to apparatus in streets; to make provision about the keeping and maintenance of registers of births and deaths; to make provision for the regulation of the processing of information relating to identified or identifiable living individuals; to make provision about privacy and electronic communications; to establish the Information Commission; to make provision about information standards for health and social care; to make provision about the grant of smart meter communication licences; to make provision about the disclosure of information to improve public service delivery; to make provision about the retention of information by providers of internet*

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*services in connection with investigations into child deaths; to make provision about providing information for purposes related to the carrying out of independent research into online safety matters; to make provision about the retention of biometric data; to make provision about services for the provision of electronic signatures, electronic seals and other trust services; and for connected purposes."*

Fel y gwyddoch, cyflwynodd Llywodraeth flaenorol y DU y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, a methodd y Bil hwnnw yn dilyn diddymu'r Senedd cyn yr Etholiad Cyffredinol. Er bod mwyafrif y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, gosodwyd pedwar Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil. Roedd Llywodraeth Cymru yn gefnogol o ran bwriad polisi y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil. Fodd bynnag, nodwyd nifer o bryderon o safbwynt polisi ac o safbwynt cyfansoddiadol. Er y bu ymgysylltu helaeth â Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, ni chafwyd datrysiad boddhaol. Arweiniodd hyn at y Senedd yn atal ei chydsyniad ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil ar 14 Mai.

Cafodd fy swyddogion olwg gyntaf ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) drafft yn ei gyfanrwydd ar 3 Hydref, gyda fersiwn wedi'i diweddaru (Bil HL 40 (fel y'i cyflwynwyd)) yn cael ei chyhoeddi ar 24 Hydref.

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y byddan nhw'n ceisio cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd mewn perthynas â darpariaethau mewn pedair rhan wahanol o'r Bil, sef:

- Rhan 1 Mynediad at Ddata Cwsmeriaid a Data Busnes.
- Rhan 2 Gwasanaethau Dilysu Digidol.
- Rhan 3 Cofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol.
- Rhan 7 Gwybodaeth i wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym wrthi'n dadansoddi'r Bil ar hyn o bryd, ac er ein bod yn disgwyl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd, mae'n debygol y bydd hyn y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos yn Rheol Sefydlog 29 oherwydd y rhesymau a amlinellir uchod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning